**Eitem ar yr agenda: 3(i)**

# AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU

Dyma gofnodion y cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Iau 20fed Mai 2004 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Rhyl. Dechreuodd y cyfarfod am 10 y bore.

**Yn bresennol:**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Ll Davies (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| D M Morris | Cyngor Sir Ddinbych |
| R P MacFarlane | Cyngor Sir y Fflint |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

P S Coles (Dirprwy Brif Swyddog Tân); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); K Hughes (Rheolwr Datblygu); S Morris (Swyddog Prosiectau); J Purser (Ysgrifennydd yr FBU yn y Frigâd); S Williams (Cadeirydd yr FBU yn y Frigâd); T Pye (cynrychiolydd yr FBU yn y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| J R Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D G Parry | Cyngor Sir y Fflint |
| D B Evans | Cyngor Gwynedd |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| F A Nichols | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| P S Claydon | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) |
| P L Slee | Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) |
| K W Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi eu cyflwyno iddo ef na'r Clerc ar gyfer eu hystyried.

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod o'r Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 22ain Ebrill 2004
ii. cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Arbennig a gynhaliwyd ar 22ain Ebrill 2004

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

***i. cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion; a***
***ii. nodi penderfyniad yr Is-Bwyllgor Arbennig i godi cyflog sylfaenol y Prif Swyddog Tân, y codiad i ddod i rym o'r 1af Ionawr 2004, gyda chyflogau'r Prif Swyddogion eraill yn codi i'r lefelau canrannau perthnasol o gyflog y Prif Swyddog Tân, o'r un dyddiad***

## 4) Materion yn codi

Codwyd y pwyntiau canlynol o gofnodion y cyfarfod ar 22ain Ebrill 2004:

**Tud. 2 – Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân:** Dywedodd y Cadeirydd wrth y Panel fod dirprwyaeth o'r Awdurdod wedi cyfarfod â Ms Sue Essex AC, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Cynulliad, yn Llandudno ar 29ain Ebrill 2004 i leisio pryderon yr Awdurdod ynghylch yr oedi, a materion eraill yn ymwneud â'r Rheoliadau Drafft ar gyfer y Cynllun Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân yng Nghymru. Roedd y ddirprwyaeth wedi eu siomi ac yn gresynu ynghylch diffyg ôl briffio ar y Gweinidog ar y materion a godwyd yn ystod y cyfarfod yn enwedig o ystyried y ffaith fod yr Awdurdod wedi gohebu llawer â'r Cynulliad ar y Cynllun arfaethedig. Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei gefnogaeth barhaus, ei gymorth ar y materion cyfreithiol ac am fynychu'r cyfarfod gyda'r ddirprwyaeth. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau ei fod wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod o Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar 17eg Mai 2004 lle canmolwyd gwaith manwl Clerc Awdurdod Tân Gogledd Cymru, ar ran y tri awdurdod tân yng Nghymru, ar y mater yma. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod dirprwyaeth o Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru i fod i gyfarfod â'r Gweinidog ar 27ain Mai 2004 gyda'r bwriad o ailddatgan y pryderon a rhoi rhagor o bwysau ar Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno'r lwfansau yn ddi-oed.

**Tud. 7 – Mesur y Gwasanaethau Tân ac Achub:** Cafodd yr aelodau wybod gan y Clerc ei fod wedi mynychu Tŷ'r Arglwyddi y diwrnod cynt, ar drydydd diwrnod Cam Pwyllgor y Mesur yn yr ail siambr. Cadarnhaodd fod y gwaith o lobïo aelodau yr Arglwyddi, ar ran yr awdurdodau tân yng Nghymru, i osod gwelliannau i'r Mesur gerbron, wedi bod yn llwyddiannus. Roedd yr Arglwydd

Hanningfield, ar ran Arglwyddi'r Wrthblaid, eisoes wedi rhoi dau welliant gerbron – rhai roedd yr Awdurdod wedi lobïo yn eu cylch – ac roedd wedi dweud ei fod yn bwriadu rhoi gwelliant arall gerbron y diwrnod hwnnw. Roedd yr Arglwydd Hooson wedi perswadio arglwyddi'r Democratiaid Rhyddfrydol i roi gwelliant arall gerbron, tra roedd yr Arglwydd Roberts o Gonwy wedi mynegi ei barodrwydd i gynorthwyo i roi gwelliant gerbron yn gwrthwynebu i'r Cynulliad Cenedlaethol gael y pŵer i benodi aelodau i wasanaethu ar awdurdodau tân yng Nghymru. Dywedodd y Clerc ei fod yn fwriad ganddo fynychu'r Tŷ eto ar 24ain Mai 2004 pan fyddai'r Pwyllgor yn ymdrin â materion eraill o ddiddordeb i awdurdodau tân yng Nghymru. Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei waith parhaus yn lobïo ar ran y tri awdurdod tân yng Nghymru ar y Mesur.

**Tud. 7 – Hen Orsaf Dân Llanfairfechan:** Holodd y Cynghorydd S C Jones a fu unrhyw ddatblygiadau ynghylch penderfyniad yr Awdurdod mewn egwyddor i brydlesu safle'r hen orsaf dân i'r sawl oedd â diddordeb, gan fod rhai o drigolion Llanfairfechan wedi lleisio pryder am y sefyllfa. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y sawl oedd â diddordeb wedi cyflwyno ei Gynllun Busnes, ac wedi mynegi ei fod yn bwriadu prydlesu'r safle am ddwy flynedd. Gwnaeth y Cadeirydd gais ar i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Awdurdod maes o law i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn y dyfodol agos i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa ynglŷn â safle hen orsaf dân Llanfairfechan***

**5) Gwrandawiad ar Fethiant i Gytuno**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio cael y Panel i gytuno ar fethodoleg ar gyfer y gwrandawiad; amlinellai'r adroddiad hefyd y cefndir i'r gwrandawiad, gan gynnwys crynodeb o safbwyntiau'r Rheolwyr ac Undeb yr FBU. Pwysleisiodd mai'r unig fater lle'r cofrestrwyd methiant i gytuno yn ei gylch oedd y weithdrefn arfaethedig ar gyfer llenwi swyddi Swyddogion Hyfforddi, Datblygu a Hwyluso (IDFO) yn y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu yn dilyn yr ailstrwythuro.

Dywedodd y Cynghorydd W J Chorlton ei fod o'r farn fod methodoleg ysgrifenedig ar gyfer cynnal gwrandawiad ar fethiant i gytuno yn bod eisoes, ond roedd yn fodlon gyda'r fethodoleg oedd yn y adroddiad. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - mabwysiadu'r fethodoleg a argymhellwyd yn yr adroddiad ar gyfer cynnal y gwrandawiad***

Gwahoddwyd y Dirprwy Brif Swyddog Tân gan y Cadeirydd i gyflwyno safbwynt y Rheolwyr. Cafodd yr aelodau wybod gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod ailstrwythuro'r Ganolfan wedi cael ei ddynodi fel rhywbeth angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y System Datblygiad Personol Integredig (IPDS), sef un o gonglfeini'r gwasanaeth tân modern, yn cael ei gweithredu a'i chyflwyno'n effeithiol. Ystyrid IPDS yn newid sylfaenol, yn ogystal â diwylliannol, o fewn y

gwasanaeth tân ym Mhrydain, ac roedd rhaid i'r Frigâd sicrhau bod ganddi'r bobl iawn i ddarparu'r hyfforddiant priodol i bawb, boed nhw ar yr ochr weithredol, yn yr ystafell reoli, yn staff lifrai neu ddi-lifrai. Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod Tîm Rheoli'r Frigâd wedi ystyried yr ailstrwythuro arfaethedig yn Awst 2003, ac wedi penderfynu ar y lefelau staffio bryd hynny. Rhwng Tachwedd 2003 a 24 Mawrth 2004, pan gofnodwyd y methiant i gytuno, bu nifer o lythyrau yn mynd a dod, a chynhaliwyd sawl cyfarfod rhwng y Rheolwyr a'r Undeb er mwyn datrys nifer o faterion yn ymwneud â'r ailstrwythuro.

Cafodd y Panel eu briffio gan y Swyddog Rhanbarthol (DO) Kevin Hughes ar egwyddorion IPDS: dethol a datblygu hyfforddiant yn barhaus, ar gyfer staff ac aelodau'r Awdurdod Tân, a fyddai'n cael eu teilwra ar gyfer gofynion personol pob unigolyn. Oherwydd bod hwn yn ddull hollol newydd o ddatblygu gyrfa'r staff a'r aelodau, a gan fod y Ganolfan yn ddiweddar wedi cael ei achredu gan Edexcel fel canolfan ragoriaeth ar gyfer darparu hyfforddiant IPDS, roedd yn hollbwysig felly mai'r staff mwyaf cymwys oedd yno. Holl gysyniad IPDS oedd trin pob aelod o staff yn gydradd a theg, felly, roedd yn bwysig fod y swyddi'n cael eu hysbysebu'n agored i holl staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gan ei bod yn bosib fod staff o'r tu allan i'r Ganolfan ar hyn o bryd yn meddu ar y cymwysterau ac yn gymwys i weithredu o fewn y rolau newydd. Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân mai'r bwriad gwreiddiol oedd hysbysebu'r swyddi newydd yn Ionawr 2004, ond oherwydd y trafodaethau parhaus i geisio datrys y gwahaniaethau ar wahanol faterion rhwng y Rheolwyr a'r Undeb, roedd hyn wedi arwain at 6 mis o oedi. Rhybuddiwyd yr aelodau o'r ffaith y gallai'r oedi wrth roi'r strwythur newydd ar waith gael effaith andwyol ar ddosbarthiad yr Awdurdod dan y drefn wirio, gan fod ail gam yr Archwiliad Gwirio i gychwyn ar ddechrau Mehefin. Roedd y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r DO Hughes o'r farn fod y swydd-ddisgrifiadau ar gyfer y swyddi newydd yn wahanol iawn i swydd-ddisgrifiadau'r Hyfforddwyr presennol ar reng Is-Swyddog. Roedd y rôl bresennol yn ymwneud â hyfforddwyr cwrs ymarferol tra roedd y rôl newydd yn ymwneud â hwyluswyr. Roedd y Dirprwy Brif Swyddog Tân a DO Hughes o'r farn fod yr hyfforddwyr presennol yn y Ganolfan mewn sefyllfa dda i lwyddo wrth wneud cais am unrhyw un o'r swyddi pan fyddent yn cael eu hysbysebu.

Cafodd yr aelodau gyfle i holi cwestiynau i gynrychiolwyr y Rheolwyr ac fe wnaethon nhw egluro sawl mater yn ymwneud â nifer y swyddi oedd ar gael, y sgiliau a'r nodweddion oedd eu hangen i gyflawni'r rolau newydd, a gofynion y rolau newydd oedd yn mynd i fod yn wahanol i'r rolau presennol. Cafodd yr aelodau sicrwydd y byddai unrhyw staff oedd naill ai'n aflwyddiannus yn y drefn ddethol, neu'n dymuno peidio â gwneud cais am un o'r swyddi newydd, yn cael eu "slotio i mewn" i'r swyddi Swyddogion Gorsaf oedd wedi cael eu cadw'n wag yn fwriadol tan i ailstrwythuro'r Ganolfan gael ei gwblhau.

Yna, cafodd yr Undeb gyfle i holi cwestiynau i ochr y Rheolwyr, ac atebwyd y cwestiynau. Roedd yr atebion yn cadarnhau y byddai'r 10% o ychwanegiad cyflog a delir i swyddogion hyfforddi yn codi i 20% dan y strwythur newydd, oherwydd y byddai gan y Swyddogion newydd fwy o awdurdod na'r swyddogion hyfforddi presennol gan y byddai disgwyl iddynt gyflwyno

hyfforddiant oedd wedi ei deilwra ar gyfer anghenion yr unigolyn yn hytrach na'r dull presennol o'r 'un peth i bawb'. Hefyd, byddai disgwyl iddynt weithio gyda'r nos er mwyn darparu hyfforddiant i staff mewn gorsafoedd rhan amser. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân, fod 3 o blith yr 8 o swyddogion hyfforddi parhaol presennol â cheisiadau dilys am adleoliad mewn grym, ond nid oedd yn wybyddus a fyddai unrhyw un ohonynt yn gwneud cais am y swyddi newydd. Hefyd cadarnhaodd fod swyddi'r Rheolwr a'r Dirprwy Reolwr yn y Ganolfan wedi cael eu llenwi yn dilyn cystadleuaeth agored a hysbysebwyd.

11:25 y bore – cafwyd seibiant yn y cyfarfod ac ailymgynnull am 11:30 y bore.

Yn dilyn cais gan y Cadeirydd a'r Undeb dosbarthwyd copi o "Swydd-Ddisgrifiad" swyddog hyfforddi presennol ynghyd a chopi o swydd-ddisgrifiad y Swyddog newydd i bawb oedd yn bresennol.

Yna, cyflwynodd Mr John Purser, Ysgrifennydd yr FBU yn y Frigâd, ddadleuon yr Undeb. Gwnaeth yr Undeb hyn trwy fynd â'r Panel drwy bob pwynt yn swydd-ddisgrifiad y swydd newydd gan gymharu manylion diben y swydd, y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau, y cyfrifoldebau goruchwylio, a'r cysylltiadau y tu allan i'r adran, gyda'r gofynion cyfatebol a ragnodwyd yn swydd-ddisgrifiad y swyddi hyfforddi presennol. Dywedodd fod y swydd-ddisgrifiad y swydd bresennol wedi ei llunio pan grëwyd yr Awdurdod yn 1996, ac er bod y rôl wedi newid cryn dipyn ers hynny, a bod ailstrwythuro'r Ganolfan Hyfforddi wedi digwydd yn 2000, nid oedd y swydd-ddisgrifiad ei hun wedi cael ei newid. Yn ystod yr ailstrwythuro o'r blaen roedd y staff wedi cael ei "slotio i mewn". Felly, roedd yr Undeb o'r farn y dylid cael yr un drefn ar gyfer rhannu'r swyddi newydd. Roedd yr Undeb o'r farn mai dim ond newid cosmetig oedd y newid arfaethedig, sef newid teitl y swydd, gan fod y swydd-ddisgrifiadau'n dangos nad oedd llawer o wahaniaeth rhwng y ddwy rôl. Pwysleisiodd Mr Purser y gellid rhoi'r medrau ychwanegol ar gyfer y rolau newydd i'r swyddogion hyfforddi presennol mewn byr o dro, a gyda goblygiadau cost bychan iawn i'r Awdurdod, tra, ar y llaw arall, petai'r Awdurdod yn mabwysiadu safbwynt y Rheolwyr mae'n debyg y gallai wynebu costau eithaf sylweddol oherwydd ymrwymiadau hyfforddiant, petai staff o'r tu allan i'r adran bresennol yn cael eu recriwtio. Byddai sefyllfa o'r fath hefyd yn arwain at y Ganolfan yn colli'r toreth o arbenigedd oedd ganddi ar hyn o bryd, a hynny'n arwain yn anochel at golli morâl.

Yna, atebodd yr Undeb gwestiynau'r aelodau lle buont yn mynegi pryderon am lefel yr hyfforddiant a roddid i staff dros dro yn y Ganolfan. Ond fe wnaethon nhw gadarnhau bod yr hyfforddiant a ddarperir gan staff y Ganolfan o'r safon uchaf; roedd ganddo hanes da gan na gofnodwyd unrhyw gwynion. Cadarnhaodd Mr Purser fod y staff hyfforddi'n cefnogi safiad yr Undeb ar y mater o wrthwynebu mewn egwyddor i staff orfod ailymgeisio am yr un swyddi fwy neu lai â'r swyddi yr oeddynt yn eu cyflawni'n bresennol. Roedd yr Undeb yn cytuno bod y rolau wedi newid ers ailstrwythuro'r Adran yn 2000, ond yn eu barn nhw roedd y newidiadau yma wedi datblygu dros amser ac roedd y rolau a gyflawnwyd gan y swyddogion hyfforddi ar hyn o bryd yn debyg iawn i rolau'r

swyddi newydd. Roedd yr Undeb yn cytuno â'r Rheolwyr y dylid hysbysebu'r tair swydd Cydlynydd, a fyddai'n swyddi newydd wedi eu creu dan yr ailstrwythuro, a'u llenwi yn dilyn cystadleuaeth agored. Dywedodd y cynrychiolwyr hefyd y byddent yn barod i gael yr un drefn ar gyfer unrhyw swydd IDFO a fyddai'n parhau'n wag ar ôl "slotio i mewn" y staff presennol. Cadarnhaodd cynrychiolwyr yr Undeb hefyd na fyddai'r swyddogion hyfforddi presennol a fyddai'n aflwyddiannus yn eu cais am y swyddi newydd â'r hawl i dderbyn y 10% o ychwanegiad cyflog pan fyddent yn symud i "ddyletswyddau gwylfa" petai safbwynt y Rheolwyr yn cael ei mabwysiadu.

Yna, cafodd y Rheolwyr gyfle i holi'r Undeb. Mynegodd ochr y Rheolwyr eu pryder bod yr holl enghreifftiau yr oedd yr Undeb yn eu rhoi o'r medrau oedd eu hangen ar gyfer darparu hyfforddiant yn ymwneud â materion yr ochr weithredol; ni wnaed unrhyw gyfeiriad at ddarparu hyfforddiant i aelodau eraill o'r staff nac aelodau'r Awdurdod. I ateb datganiad gan y Rheolwyr y byddai dyletswyddau IDFO yn gwahaniaethu i rai swyddog hyfforddi presennol o tua 60%, honnodd yr Undeb fod hyn felly'n golygu bod y 'swydd-ddisgrifiad' yn enghraifft o ddogfen a luniwyd yn wael. Roedd canllawiau'r Gwasanaeth Ymgynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) yn nodi fod yn rhaid i 'swydd-ddisgrifiad' adlewyrchu'n gywir y dyletswyddau y disgwylid i unigolyn eu cyflawni mewn rôl benodol, ac roedd yr Undeb o'r farn eu bod wedi profi'n ddigonol trwy gymharu'r ddau 'swydd-ddisgrifad' mai ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng y ddwy rôl.

Cafodd y ddwy ochr gyfle i gyflwyno datganiadau cloi i'r Panel. Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân grynodeb o achos y Rheolwyr, a rhoddodd Mr Purser grynodeb o safbwynt yr Undeb. Diolchodd y cynrychiolwyr i'r aelodau am adael iddynt gael rhoi eu safbwyntiau. Gadawodd cynrychiolwyr y ddwy ochr y cyfarfod tra roedd y Panel yn ystyried.

Cafwyd saib yn y cyfarfod am 12:50yp ac ailymgynnull am 1yp.

Gwahoddwyd pob aelod o'r Panel yn ei dro, gan y Cadeirydd, i fynegi eu barn ar y dystiolaeth a glywsant, cyn i'r Panel drafod am gryn amser y gwahanol faterion roedd y ddwy ochr wedi eu codi. Roedd rhai aelodau o'r farn y byddai mabwysiadu'r dull "slotio i mewn" ar gyfer rolau'r IDFO newydd yn mynd yn groes i ddelfrydau tegwch a chydraddoldeb ar gyfer yr holl staff, sef yr hyn roedd y gwasanaeth tân modern yn ceisio ei hyrwyddo, ac y gallai wneud i staff di-lifrai deimlo'n ddig. Teimlai aelodau eraill nad oedd ganddynt unrhyw ddewis ond cefnogi'r Undeb y tro hwn oherwydd cryfder yr achos a gyflwynwyd ganddynt, ac oherwydd nad oedd ochr y Rheolwyr wedi eu hargyhoeddi ynghylch rhai o honiadau'r Undeb, er nad oeddynt am i'r achos yma osod cynsail ar gyfer penodiadau yn y dyfodol. Rhoddwyd hyn i bleidlais, ac o fwyafrif:

***Penderfynwyd: -***

*i.* ***wedi cystadleuaeth ar gyfer y swyddi rheoli gorsaf yn strwythur newydd y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu a fyddai'n agored i holl staff yr Awdurdod Tân, byddai'r swyddi rheoli gwylfa yn y strwythur newydd yn cael eu llenwi trwy slotio i mewn yr hyfforddwyr parhaol presennol. Byddai hyn yn ddibynnol ar y rheolwyr yn bod yn fodlon fod yr hyfforddwyr yn ateb gofynion y Rheoliadau Penodi a Dyrchafu 2004, yn arbennig Rheol 6; ac***

*ii.* ***nad yw'r penderfyniad uchod mewn unrhyw fodd yn gosod cynsail ar gyfer ymdrin ag ailstrwythuro o fewn y Gwasanaeth yn y dyfodol***

Cafodd y ddwy ochr wybod am y penderfyniad gan y Cadeirydd a'r Clerc.

**6) Materion Brys**

Dim.

**RHAN II**

Dim busnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30yp.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 26 Awst, 2004